

## Fforwm Mynediad Lleol Dwyrain Conwy a Sir Dinbych

Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd

Dydd Iau, 8 Mawrth 2018

yn

Venue Cymru, Llandudno

am 10:30am

### Aelodau'r Fforwm Mynediad Lleol

Gwen Butler  
Jo Hughes  
Max Grant  
Kevin Slattery  
Paul Frost  
Don Milne  
Hilary Davies  
Kay Culhane  
Tom Woodall  
John Buckley

### Yn Cynrychioli Cyngor Sir Ddinbych

Hannah Arndt (Swyddog Mynediad ac Ysgrifennydd y Fforwm Mynediad Lleol)  
Helen Mrowiec (Uwch Swyddog Hamdden)  
Adrian Walls (Rheolwr Hawliau Tramwy)

### Yn Cynrychioli Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Sian Williams (Swyddog Mynediad)  
Caroline Turner (Swyddog Mapiau Swyddogol)

### Arsylwyr

Tom Culhane

### Cyflwynwyd Ymddiheuriadau am Absenoldeb gan: -

Tim Faire, Heather Fitzgerald, Hugh Crosswood, Paul Mitchell (Cyfoeth Naturiol Cymru), Victoria Currie, Jim Gaffney, Chris Marshall, Duncan Barratt, Dan Hurst, Toni Mayne, Cyngorydd Martyn Holland, Iona Pierce

### Cofnodion a Chamau Gweithredu o'r Cyfarfod Diwethaf.

Gofynnodd yr Is Gadeirydd a oedd nodiadau'r cyfarfod diwethaf yn gofnod cywir. Cynigiodd Jo Hughes eu bod yn gywir ac fe eiliodd Paul Frost. Roedd camau gweithredu a soniwyd amdanynt yn y cyfarfod diwethaf fel a ganlyn;

### Materion yn Codi

Tudalen 4: Gofynnodd Max Grant os oedd unrhyw ddogfennau am Glastir wedi eu derbyn. Nid oedd HA wedi derbyn rhai eto ond roedd wedi creu ffolder Dropbox er mwyn rhannu ffeiliau gydag aelodau.

Pwynt gweithredu	Manylion y cam gweithredu	Y Sefyllfa Bresennol
AP 6.1	HA a GB i lunio llythyr drafft i Hannah Blythyn ac adrannau eraill mewn perthynas â cholli cyllid ar gyfer y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy. HA i ddsbarthu'r llythyr drafft ymysg y Fforwm Mynediad Lleol.	
AP 6.2	Awdurdodau Lleol i roi adborth yn ystod y cyfarfod nesaf gydag awgrymiadau pellach am gynllun.	Eitem ar y Rhaglen

### Anturio Doeth - cyflwyniad gan Emma Jones-Edwards

Wedi Blwyddyn Antur 2016, daeth Cymru yn boblogaidd iawn ac roedd sylw negyddol yn y wasg am y nifer o weithiau y cafodd y timau Achub Mynydd eu galw allan. Mewn ymateb i hynny rhoddodd Eryri

Bywiol gais cyllid Croeso Cymru at ei gilydd oedd yn ymwneud â diogelwch ymwelwyr, a gafodd ei wrthod.

Yn 2017, cyflwynodd 35 o sefydliadau gais ar y cyd i hyrwyddo mynediad diogel at weithgareddau antur. Derbyniwyd y cais hwn. Darparodd AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy a Pharc Cenedlaethol Eryri beth o'r arian cyfatebol ar gyfer y prosiect.

Mae Emma wedi edrych am ymgyrchoedd o Ganada, Seland Newydd a'r Unol Daleithiau er mwyn cael ysbrydoliaeth. Penderfynwyd na ddylai fod yn ymgyrch ofni marwolaeth, ond dylai hyrwyddo negeseuon cadarnhaol, felly edrychodd y prosiect ar sut gellid cael pobl i fabwysiadu ymddygiad yr ydym am ei weld. Y nod yw gwneud hyn drwy negeseuon allweddol.

Prif neges yr ymgyrch yw – ***Mentra'n Gall - tro dy ddiwrnod da yn ddiwrnod gwell.*** Y prif nod yw annog pobl i fwynhau adnoddau awyr agored naturiol yn ddiogel drwy ddarparu gwybodaeth byw a chyfluoedd addysgu. Mae'r partneriaid yn gobeithio annog pobl i gymryd camau syml i gynllunio ar gyfer diwrnod allan da a gwneud i bobl gymryd cyfrifoldeb dros eu hunain.

Ffurfiodd tair fideo gychwynnol ran o'r lansiad ar Fawrth 22 gyda themâu'n ymwneud â mynediad at dir, dŵr a'r newid yn hyd dyddiau, gyda phwyslais ar wneud gweithgareddau gyda'r offer cywir. Mae'r prosiect wedi datblygu negeseuon diogelwch safonol, eglur a dwyieithog sy'n cynnwys amrywiaeth o weithgareddau awyr agored.

Mae gwefan Anturio Doeth Cymru ([www.adventuresmartwales.com](http://www.adventuresmartwales.com)) yn cynnwys rhagolygon y tywydd, amseroedd machlud yr haul ac amseroedd y llanw. Mae'n cynnig mynediad at wybodaeth diogelwch i fusnesau twristiaeth, sydd wedyn yn gallu rhannu'r wybodaeth honno gydag ymwelwyr, gan sicrhau bod negeseuon diogelwch yn cyrraedd cynulleidfaoedd newydd.

Mae'r prosiect hefyd wedi gweithio gyda'r sector twristiaeth er mwyn creu pecyn ar y wefan ar gyfer busnesau, sy'n cynnwys delweddau gyda brand er mwyn eu defnyddio ar wefannau busnes ac er mwyn gallu gosod y fideos ar y gwefannau. Bydd gwybodaeth a dehongliadau mewn safleoedd poblogaidd a phrysus hefyd yn cael eu brandio â neges Anturio Doeth Cymru – mae'r tîm yn awyddus i ardaloedd sy'n diweddarau eu gwybodaeth safle ychwanegu rhai o negeseuon Anturio Doeth.

### **Cwestiynau i Emma**

Gofynnodd JB sut bydd y prosiect yn mesur llwyddiant. Dywedodd Emma y bydd hyn yn cael ei wneud drwy fesur galwadau i'r Tîm Achub Mynydd ac i'r RNLI, sydd eisoes yn cael eu cofnodi. Mae'n cymryd cyfnod hir o amser i newid ymddygiad, gobeithio y bydd sefydliadau yn parhau â'r negeseuon. Gobeithio am fwy o gyllid i helpu, yn enwedig os bydd y prosiect yn dod yn fenter ar draws y DU, fodd bynnag maent am sicrhau bod y prosiect yn gweithio cyn ei gyflwyno ar draws y DU a sicrhau nad yw'r negeseuon yn annog ymddygiad gwael.

Gofynnodd PF am gyllid pellach. Mae Emma yn gobeithio am 2 flynedd arall er mwyn creu prosiect 4 blynedd. Bydd sefydliadau wedyn yn berchen ar y brand a'r prosiect ac ni fydd dim i'w dalu amdano mewn egwyddor os yw'r brandio a'r negeseuon yn iawn. Mae'n bosib y bydd Emma yn adolygu'r prosiect mewn 5 mlynedd i asesu os yw negeseuon yn dal yn addas ac os oes angen cyllid pellach.

Gofynnodd DM sut bydd y prosiect yn mesur effeithiolrwydd. Mae gan y Tîm Achub Mynydd gofnodion da am alwadau y gellir bod wedi eu hosgoi, ac mae eu hadroddiadau yn rhannu galwadau yn dda iawn er mwyn dadansoddi. Mae'r RNLI hefyd yn gwneud hyn, felly does dim angen casglu data ychwanegol.

Gofynnodd HM pam nad oedd y logo yn ddwyieithog ac mae'n bosib y byddai'n anodd i rai sefydliadau ddefnyddio dau logo ar ddogfen. Dywedodd Emma bod fersiynau Saesneg a Chymraeg ar wahân am resymau dylunio. Mae canllawiau defnyddio logos ar gael ar y wefan. Dywedodd HM bod Cyfeillion Bryniau Clwyd yn cynnal diwrnod llywio fel rhan o wyl gerdded Llangollen ac y gellid ei becynnu gan ddefnyddio brand Anturio Doeth Cymru.

Gofynnodd JH os byddai'r wefan yn derbyn rhestr o ddillad derbynol ac annerbynol. Dywedodd Emma bod gan y rhan fwyaf o sefydliadau wybodaeth fanwl ar offer / dillad ar gyfer gweithgareddau penodol ar eu gwefannau eu hunain.

### **Diweddariad ar Deithio Llesol**

Rhoddodd Sian ddiweddariad gan CBSC. HA i anfon diweddariad CSDd pan fydd wedi ei dderbyn.

Mae Cyngor Conwy wedi gosod 3 cais ar gyfer cyllid Llwybrau Map Rhwydwaith Integredig Teithio Llesol i Lywodraeth Cymru eleni (3 yw'r nifer fwyaf a ganiateir). Cawsant eu dewis gan eu bod yn teimlo eu bod yn bodloni'r meini prawf cyfredol orau, a'u bod felly'n fwy tebygol o dderbyn cyllid. Ar hyn o bryd mae CBSC yn aros i glywed canlyniad y ceisiadau. Y ceisiadau cynlluniau Teithio Llesol ar gyfer eleni yw:

- Maesdu Avenue, Deganwy i Landudno
- Ysgol Aberconwy, tref Conwy i Barc Busnes Morfa Conwy
- Cam 2 Creuddyn, Bae Penrhyn

Mae'r prosiectau a'r cynlluniau hyn wedi eu cyfyngu i gymunedau sydd â phoblogaeth o dros 3,000.

Dywedodd HM bod Cyngor Sir Ddinbych yn ceisio cael Corwen i mewn ond ar hyn o bryd mae tu allan i'r meini prawf ac ychwanegodd AW bod Bodelwyddan hefyd ychydig yn is er y cynlluniau datblygu tai cyfredol.

Gofynnodd MG a fyddai integreiddio rhwng Teithio Llesol a'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy. Dywedodd AW y bydd hyn yn digwydd wrth symud ymlaen gyda'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy newydd. Bydd SW yn darganfod os bydd hyn yn digwydd yng Nghonwy.

### **Diweddariad ar Adolygiad y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy**

Cyngor Sir Ddinbych

Rhoddodd AW gyflwyniad ar y cynnydd presennol ar Adolygiad y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy. Mae AW wedi bod yn edrych ar asesiad ers mis Hydref. Enw'r cynllun newydd fydd "Cynllun Gwella Mynediad Cefn Gwlad" er mwyn ymestyn y tu hwnt i'r rhwydwaith hawliau tramwy. Nid oedd staff yn gallu cwblhau'r adolygiad 11% llawn ond mae AW wedi bod yn edrych ar ddata a gasglwyd drwy ddyfeisiadau GPS ac apiau ffon ac mae'r mater o nifer yr ymwelwyr yn bwysig.

Rhoddodd AW esiampl o Fanceinion Fwyaf lle maent yn defnyddio sawl cyfres o ddata i ddangos y llwybrau sy'n cael eu cerdded fwyaf. Gan ddefnyddio'r model hwn dangosodd AW fapiau o draffig troed a beiciau yn Llyn Brenig a Llyn Alwen er mwyn dangos y gwahaniaeth ym mhoblogaeth gwahanol rannau o'r rhwydwaith.

Bydd Strava Metro, ap sy'n casglu'r data hwn, yn gwerthu'r data i awdurdodau lleol. Fodd bynnag does dim adnodd gan yr awdurdod i reoli'r data. Mae AW yn ceisio cael Llywodraeth Cymru i ariannu cynllun peilot gyda myfyrwyr prifysgol i ddadansoddi'r data. Mae cyfleoedd i ddefnyddio'r data ar gyfer y rhwydwaith priffyrdd a datblygiad economaidd, sy'n awyddus i edrych ar niferoedd yr ymwelwyr i fusnesau gwledig.

Er na fydd data'r ap yn dal yr holl ddefnyddwyr (y rheiny nad ydynt yn defnyddio GPS), bydd yn rhoi syniad clir i ni o ddefnydd oherwydd y niferoedd sydd yn defnyddio GPS bellach, a bydd yn cychwyn rhoi gwybodaeth bwysig i ni ar yr ardaloedd nad ydynt yn rhan o'r rhwydwaith y mae pobl yn eu defnyddio. Ai'r rheswm nad yw'r ardaloedd hyn yn cael eu defnyddio yw bod problemau gyda'r rhwydwaith, neu oherwydd eu bod ymhellach i ffwrdd oddi wrth y prif ganolfannau poblogaeth? A ydym yn annog pobl i fynd i'r ardaloedd nad ydynt yn cael eu defnyddio neu ydym ni yn blaenoriaethu cyllid i ardaloedd defnydd canolig ac uchel?

### **Cwestiynau**

Gofynnodd JH os gall GPS wahaniaethu rhwng traed a charnau. Nid yw AW yn gwybod am ap GPS sy'n casglu data marchogaeth, ond gellir cael syniad am ddefnydd llwybr ceffylau gan feicwyr. Ychwanegodd bod angen dull gwahanol o ran defnydd marchogaeth gan ei fod yn tueddu i fod yn lleol. Er enghraifft os mai dim ond un llwybr ceffylau sydd mewn cymuned byddai'n flaenoriaeth uchel, beth bynnag fo'r data GPS. Mae'r rhan fwyaf o lwybrau ceffylau yn Sir Ddinbych o broffil canolig i uchel oherwydd y rhwydwaith fechan sydd ar gael i farchogion a beicwyr mynydd.

Dywedodd KS ei fod yn defnyddio mapio OS gyda GPS ond nid ar daith gerdded gyfan, er mwyn arbed batri.

Gofynnodd MG beth yw'r ganran o bobl nad ydynt yn defnyddio GPS. Dywedodd AW bod Strava yn gwneud astudiaeth i weld faint o ddefnyddwyr sydd â GPS ac mae gan Gyngor Sir Ddinbych gyfrifwyr ar y ddaear ar rai llwybrau.

### Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Rhoddodd SW ddiweddariad gan Victoria Currie:

Yn anffodus nid ydym wedi symud ymlaen lawer ers y cyfarfod diwethaf. Rydym yn dal i aros am gymeradwyaeth ar yr Asesiadau gan Andrew Wilkinson (pennaeth y gwasanaethau cymdogaeth) ond rydym yn gobeithio bellach gan fod Simon Billington (Pennaeth Mannau Agored) yn ei swydd y gall symud hyn ymlaen. Rydym yn cynnig 5 nod (themâu) sef:

- Nod 1 - Sicrhau bod y rhwydwaith hawliau tramwy cyhoeddus ar agor ac ar gael i'w defnyddio  
Nod 2 - Darparu Map Swyddogol a Datganiad cyfredol sydd ar gael i bawb  
Nod 3 – Darparu rhwydwaith mwy cysylltiol, diogel a hygyrch sy'n addas i bob defnyddiwr Nod 4 -  
Gwella'r broses hyrwyddo, y ddealltwriaeth a'r defnydd o'r rhwydwaith  
Nod 5 - Annog mwy o ymgysylltiad cymunedol o ran rheoli hawliau tramwy lleol

Bydd y Cynllun Cyflawni yn berthnasol i'r nodau hyn ac rydym yn gobeithio mai dyma lle bydd y Fforwm Mynediad Lleol yn cael y mewnbwn mwyaf. Mae cyfarfod wedi ei drefnu ar gyfer yr wythnos nesaf gydag awdurdodau cyffiniol er mwyn trafod cynlluniau a dulliau gweithredu gwahanol er mwyn ceisio rhannu gwybodaeth. Gobeithiwn erbyn cyfarfod nesaf y Fforwm Mynediad Lleol y byddwn mewn sefyllfa i rannu'n Asesiadau er mwyn ffurfio is-grŵp o'r Fforwm Mynediad Lleol.  
Gofynnodd JH a oedd modd cylchredeg y manylion.

## **Diweddariad Rhoi Giât**

### Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Cyfarfu Sian â Tom Gravett sy'n ceisio darganfod am reoli asedau cysylltiol â chynllun posib. Mae Sian wedi sôn am y cynllun wrth grŵp cymunedol, Cerdded Conwy, sydd â diddordeb treialu'r cynllun i weld sut y gallai weithio.

Mae CBSC wedi cytuno i fynd â'r cynllun ymlaen mewn egwyddor, gan nodi mai giatiau pren maent yn eu ffafrio dros giatiau galfanedig, gyda phlaciau cynnil.  
Nid yw gweinyddiaeth y cynllun wedi ei gadarnhau na'i ddyrannu i swyddog eto.

Ychwanegodd MG ei fod wedi rhoi cyflwyniad i Fforwm Mynediad Lleol Gogledd Eryri ac wedi derbyn ymateb cadarnhaol. Bydd MG yn rhoi cyflwyniad i Fforwm Mynediad Lleol De Eryri yr wythnos nesaf.

### Cyngor Sir Ddinbych

Mae gwaith ar brosiectau a ariennir gan gyfraniadau gan y cyhoedd yn mynd rhagddo. Maent yn cynnwys prosiect eisteddle ar ben Bwlch Pen Barras, plannu coed addurnol ym Mhlas Newydd a rhoi giât yn lle camfa ger pen Moel Famau.

## **Unrhyw Fater Arall**

- Gofynnodd JB am wybodaeth gefndirol ar gyflwyniadau cyn y cyfarfodydd.
- Gofynnodd MG am ddiweddariad ar aelodaeth

<b>Cam Gweithredu 7.1</b>	HA i gylchredeg rhestr o aelodau a gofyn am wybodaeth gefndirol gan y rheiny nad ydynt wedi eu darparu eisoes
---------------------------	---

- Tynnodd JH sylw at y digwyddiad Cymru 360 a mynegodd bryderon am ddefnydd llwybrau ceffylau yn y digwyddiad. Bydd 400 yn cymryd rhan ym mlwyddyn un ac mae hyd at 1000 o leoedd ar gael.

Dywedodd AW nad ras yw'r digwyddiad a bydd yn cychwyn ac yn gorffen yn Aberystwyth. Mae'r digwyddiad yn cael ei drefnu gan Sweetspot sy'n trefnu Taith Prydain a digwyddiadau proffil uchel eraill yn broffesiynol iawn. Caiff y digwyddiad ei gefnogi gan Lywodraeth Cymru a Chroeso Cymru. Bydd y rhan fwyaf o'r llwybr drwy Sir Ddinbych ar dir, ffordd, a chanolfannau llwybrau Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer y cam rhwng Betws y Coed a Llangollen. Nid oes angen caniatâd i gynnal y digwyddiad gan nad ras yw, a does dim pwerau rheoleiddio gan y Cyngor i lywodraethu. Mae CSDd yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru a Chroeso Cymru.

Dywedodd PF nad oedd ganddo wrthwynebiad i ddiwyddiadau mawr a drefnir gan nad ydynt yn digwydd bob wythnos. Dylid hysbysu digon yn lleol gan ddweud pa hawliau tramwy fydd yn cael eu defnyddio a dylid rhoi gwybod i feicwyr sy'n cymryd rhan am eu cyfrifoldebau tuag at ddefnyddwyr eraill.

- Gofynnodd GB i aelodau awgrymu eitemau ar gyfer y rhaglen yn y dyfodol
- Roedd KS am amlygu pwysigrwydd ymweliadau safle fel rhan o gyfarfodydd Fforwm Mynediad Lleol ac ychwanegodd bod ymweld â Choed yr Esgob.
- Amlygodd MG y ffaith bod Y Cerddwyr wedi trefnu rhai dyddiau hyfforddi hawliau tramwy yn Llandudno a Llangollen. MG i anfon manylion at Hannah.

#### **Dyddiad cyfarfodydd sydd i ddod:**

Penderfynodd y Fforwm barhau gyda 4 cyfarfod y flwyddyn. Cynhelir cyfarfod Mehefin a Medi yn gynnar fin nos. Cynhelir cyfarfodydd y gaeaf (Rhagfyr a Mawrth) yn ystod y dydd.

- 7 Mehefin 2018
- 6 Medi 2018
- 6 Rhagfyr 2018